

Pontfaen/Tregynon

Teithiau Hanner Dydd a Mwy



GRADDFA: 0 400 800 m

PELLTER/HYD: 5.1 milltir (8.2 km) 2 awr 30 munud

CLUDIANT CYHOEDDUS: Dim

CYMERIAD: Llethrau coediog, dyffryn afon, hawdd i gymedrol ond serth ger Tregynon, traciau fferm a da byw, gall fod yn wlyb ac yn fwdlyd, 0.2 milltir (0.25 km) o gerdded ar isffyrdd

CHWILIWCH AM: Eglwys Pontfaen (i fyny'r tyle o'r maes parcio) • cwm coediog ac afon brydferth • rhaeadrau • caer Oes Haearn ger Tregynon

ALLWEDD

●●●●● Llwyr Cylch


— — — — — Llwbrau Cyhoeddus

P Maes Parcio

WC Toileadau Cyhoeddus

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharchu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwbrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi



Pontfaen/Tregynon

Teithiau Hanner Dydd a Mwy

Hyd: 2 awr 30 munud

Pellter: 5.1 milltir (8.2 km)

Cludiant cyhoeddus: Dim.

Cyfeirnod map: SN024340

Cwyd yr Afon Gwaun ym Mynyddoedd y Preseli ac mae'n llifo trwy Gwm hyfryd Gwaun gyda'i llethrau serth at y môr yn Abergwaun. Mae'r cwm yn grair o'r Oes Iâ a ffurfiwyd gan swm anferth o ddŵr tawdd a lifodd wrth i'r rhewlifoedd gilio. Gorweddai Sir Benfro ar ymyl haenen iâ enfawr a lenwodd Môr Iwerddon ac mae proffil siâp 'v' Cwm Gwaun yn awgrymu iddo gael ei dorri gan ddŵr a lifai o dan yr iâ.

Heddiw, mae pethau'n llawer mwy tawel. Mae'r Gwaun yn nant sy'n ymdroelli heibio i gorsydd, coetiroedd a dolydd dŵr. Mae yna drwch o goed ar ochrau'r cwm, gyda haenen drwchus o dderi yn tyfu ar raddiannau heriol. Yn y Gwanwyn, mae'r coedwigoedd yn llawn o glychau gwyllt y gog a'r awyr yn gyfoeth o gân yr adar sydd wedi mudo am yr haf fel telor y coed a'r dryw wen. Mae'r bwncath a'r cudyll glas yn gyffredin yma.

Ble mae'r llwybr yn glynu'n agos at y Waun chiliwch am las-y-dorlan a'r siglen lwyd. Efallai hefyd y gwelwch chi drochwr; aderyn bach brown sy'n plymio i mewn i ddŵr sy'n llifo'n gyflym i hela am fwyd. Maen nhw mor ddiddos fod y dŵr yn chwyrlio oddi ar eu plu wrth iddyn nhw ddod yn ôl i'r wyneb.

Mae Pontfaen a Thregynon ill dau ar yr hen heol tyrpeg o Hwlfordd i Drefdraeth. Mae eglwys fach Pontfaen wedi ei chysegru i Sant Brynach, cenhadwr o'r 6ed ganrif y dywedir ei fod wedi cymuno gyda'r angylion ar Garningli, sy'n edrych allan dros

Gwm Gwaun. Mae'r eglwys yn un Fictoraidd yn bennaf, ond mae'n bosib fod dwy garreg ac arnynt ysgrifeddyddio nôl mor bell ag oes Brynach.

Weithiau, disgrifir y cwm fel y cwm 'dirgel' ac yn wir mae yna synnwyr o ddirgelwch yma. Efallai bod y dirgelwch cymaint yn fwy am i gymunedau'r cwm wrthod derbyn y penderfyniad i foderneiddio'r calendr yn y 18fed ganrif ac maen nhw'n dal i ddatlu Hen Galan ar Ionawr 13eg.

